# Ymgynghoriad
# yn ymwneud a'r cynnig i uno

# Ysgol Y Foryd

# ac

# Ysgol Maes Owen

# Bae Cinmel, Conwy

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a'r atodiadau hefyd ar gael ar y dudalen Ymgynghori ar wefan y Cyngor.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg / This document is available in Welsh



**Cynnwys**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Disgrifiad a Manteision y Cynnig | 3 |
| 1.1 | Y Cynnig i Uno'r Ysgolion Presennol | 5 |
| 1.2 | Dewisiadau Amgen | 5 |
| 2 | Manylion yr Ysgolion yr Effeithir arnynt | 7 |
| 2.1 | Ysgol Y Foryd | 7 |
| 2.2 | Ysgol Maes Owen | 8 |
| 2.3 | Effaith ar Ddisgyblion a Staff | 9 |
| 2.4 | Trefniadau Derbyn | 9 |
| 2.5 | Dalgylch | 9 |
| 3 | Ansawdd a Safonau mewn Addysg | 10 |
| 3.1 | Cwricwlwm | 10 |
| 3.2 | Arolygiadau ESTYN | 11 |
| 4 | Cyllid | 12 |
| 5 | Cyflwr Adeiladau'r Ysgolion | 13 |
| 6 | Effaith Gymunedol | 13 |
| 6.1 | Defnydd Cymunedol o Gyfleusterau Ysgol | 13 |
| 6.2 | Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol | 13 |
| 7 | Effaith ar Gludiant | 13 |
| 8 | Effaith ar Iaith | 14 |
| 9 | Effaith ar Gydraddoldeb | 16 |
| 10 | Ymgynghoriad | 18 |
| | Ffurflen Adborth | 19 |

## 1. Disgrifiad a Manteision y Cynnig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn adolygu niferoedd disgyblion presennol, cydraddoldeb cyllid i ddisgyblion ac addasrwydd i bwrpas adeiladau ysgolion presennol ar draws yr Awdurdod.

Mae Cod Ymarfer Statudol Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion – Ail Argraffiad) yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol a all helpu gyda'r broses hon.
Mae adrannau 1.7 ac 1.8 o'r Cod yn annog awdurdodau lleol i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt hwy a'u hysgolion, er enghraifft clystyru, cydweithio, neu ffedereiddio ag ysgolion eraill i gynyddu hyfywedd yr ysgol.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi "wrth ddisgrifio'r cynigion, dylai cynigwyr fel arfer gyfeirio atynt gan ddefnyddio'r termau a nodir yn y Cod hwn (e.e. cau ysgolion) ond lle mae dwy neu fwy o ysgolion presennol yn dod yn un ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un safle (e.e. lle mae cyn ysgolion babanod ac iau yn dod yn ysgol gynradd) gellir defnyddio'r termau 'gyfuno' neu 'uno'".

At ddibenion yr adroddiad hwn defnyddir y term "uno".

Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig cyfuno Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen. Byddai'r ysgol newydd arfaethedig yn parhau wedi'i lleoli ar safleoedd y ddwy ysgol bresennol, ond yn gweithredu o dan un Bwrdd Llywodraethwyr ac un strwythur rheoli. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw canfod barn y gymuned, defnyddwyr posibl, a budd-ddeiliaid pwysig eraill.

Mae'r ymgynghoriad ar y sail, os cytunir arno, y bydd yr ysgol wedi'i huno yn agor ym mis Medi 2026. Bydd angen i Bwyllgor Gwaith yr Awdurdod Lleol benderfynu ar gynigion a gyflwynir gan yr Awdurdod Lleol cynhaliol ym mhob achos; sy'n golygu os bydd unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol a dderbynnir drwy'r broses Statudol yn cael eu hystyried a'u penderfynu gan Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dim ond gwrthwynebiad Awdurdod Lleol fydd yn sbarduno'r gofyniad am gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru os nad yr Awdurdod Lleol yw'r cynigydd.

Mae'r rhai yr ymgynghorir â nhw wedi'u rhestru yn y tabl isod:

| **Enw/Sefydliad** |
|---|
| Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, athrawon a staff Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen |
| Llywodraethwyr Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen |
| Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Emrys ap Iwan, Ysgol San Siôr ac Ysgol Glan Gele, Ysgol Sant Elfod ac Ysgol Glan Morfa |
| Esgobaeth Llanelwy Yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig Rufeinig Wrecsam |
| Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd |
| Gweinidog Addysg a Sgiliau Cymru |
| Adran Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru |
| Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli ardal y cynigion |
| Cynghorydd (Cynghorwyr) lleol Sir Conwy ar gyfer Tywyn/Bae Cinmel |
| Cyngor Cymuned Bae Cinmel |
| Estyn |
| Undebau Llafur Athrawon a Staff |
| GWE |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy |
| Cymunedau yn Gyntaf Conwy |
| Dechrau'n Deg Conwy |

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod o 21 Hydref 2024 yn dod i ben ar 2 Rhagfyr 2024 gan gynnwys y ddau ddyddiad.

Bydd adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o Gabinet y Cyngor ym mis Chwefror 2025.

**Hoffem glywed eich barn ar y cynnig hwn ac fe welwch sut gallwch rannu eich barn â ni ar ddiwedd y ddogfen hon.**

**Mae Conwy'n cydnabod y pwysigrwydd o gynnwys disgyblion yr ysgolion yn y broses o ddatblygu a gwella eu profiad addysg a chyda hyn mewn golwg byddwn yn sicrhau eu bod yn cymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori a gweithredu. Bydd Swyddogion Addysg yn ymgynghori â disgyblion ac yn cynhyrchu fersiwn addas i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori ac yn sicrhau fod athrawon yn cynnal sesiynau i drafod y cynnig â disgyblion ac yn annog eu hymgysylltiad a'u hadborth i'w rhannu â'r Cabinet.**

### 1.1 Y Cynnig i Uno'r Ddwy Ysgol Bresennol

Y cynnig yw uno'n ffurfiol Ysgol Y Foryd (Babanod) ac Ysgol Maes Owen (Iau).

Bydd y Cynnig i uno Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen yn golygu cau'r ddwy ysgol yn ffurfiol ac yna agor ysgol newydd.

Y cynnig cychwynnol ar gyfer ysgolion Tywyn/Bae Cinmel, fel rhan o raglen Band B Cymunedau Cynaliadwy oedd uno Ysgol Maes Owen ac Ysgol y Foryd a'u hadleoli i adeilad newydd ar gae'r ysgol bresennol. Adolygwyd y cynnig hwn fel rhan o ymarfer blaenoriaethu holl brosiectau Band B. O ystyried y cynnydd mewn costau deunydd a llafur ynghyd â fforddiadwyedd methodoleg Model Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru, cytunodd y Cabinet (10 Hydref 2023) oherwydd y risgiau ariannol i beidio â bwrw ymlaen ag adeiladu ysgol newydd yn Nhywyn/Bae Cinmel ar hyn o bryd.

Byddai'r ysgol newydd arfaethedig yn parhau ar ddau safle ar wahân, dan arweiniad un Pennaeth a bwrdd llywodraethwyr ond gyda strwythur rheoli unedig, datganiad cenhadaeth, gwerthoedd ysgol, logos, gwisg ysgol, polisïau a gweithdrefnau.

Cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad i ymgynghori ar y cynnig hwn ar 8 Hydref 2024.

Yn ystod y cyfnod interim mae swyddogion o'r Gwasanaethau Addysg wedi bod yn ymgynghori gyda Phenaethiaid a Llywodraethwyr Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen ynglŷn â'r cynnig hwn.

### 1.2 Dewisiadau Amgen

O ystyried bod y cynnig cychwynnol i uno ysgolion ac adeiladu ysgol newydd yn anfforddiadwy yn ariannol ar hyn o bryd, yr ail opsiwn yw ymchwilio i uno cychwynnol y ddwy ysgol.

Y dewis arall fyddai cynnal y sefyllfa bresennol a chadw'r ysgolion yn ysgolion Iau a Babanod.

| Dewis | Disgrifiad | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|---|
| Gwneud Dim | Cadw'r sefyllfa bresennol | Dim cost ychwanegol | Dim gwelliannau na buddion |
| Uno | Uno'r ysgolion ar y safleoedd presennol | Balans costau a buddion | Arbedion cyfyngedig |
| Adeiladu ysgol newydd | Uno'r ddwy ysgol mewn ysgol wedi'i hadeiladu o'r newydd | Mwyhau'r buddion a'r gwelliannau | Wedi'i gadarnhau eisoes fel bod yn anfforddiadwy |

Mae manteision ac anfanteision disgwyliedig y Cynnig i uno Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen wedi eu hystyried gan y Gwasanaethau Addysg ac fe'u nodir yn y tabl isod.

| Manteision / Buddion y Cynnig | Anfanteision / Heriau'r Cynnig |
|---|---|
| Mae'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr yn cefnogi'r cynnig hwn mewn egwyddor ac wedi mynegi diddordeb mewn uno. | Goblygiadau staffio, adleoli staff posibl a/neu ddiswyddiadau |
| Polisïau a strwythurau symlach gydag un pwynt cyswllt ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr | Datblygu heriau gweithredol newydd o ddydd i ddydd mewn ysgol newydd h.y. prosesau ysgol, gwisg ysgol newydd, enw ysgol newydd. |
| Parhad addysg a'r cwricwlwm i ddisgyblion, pontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, lleihau gostyngiadau ym mherfformiad disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o un cyfnod addysgol i'r llall. | |
| Llai o ddyblygu ac arbedion maint wrth reoli cyllidebau | |
| Mwy o ymdeimlad o gymuned ysgol i'r holl staff, disgyblion a rhieni | |
| Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff. Cynyddu sgiliau staff ar draws y ddwy ysgol a sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm a rhannu adnoddau yn codi safonau a deilliannau disgyblion. | |

Mae Gwasanaethau Addysg Conwy wedi ystyried unrhyw risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig i uno'r ddwy ysgol ynghyd â'r camau i'w cymryd i liniaru'r risg.

| Risgiau sy'n Gysylltiedig â'r Cynnig | Camau a Gymerwyd i Liniaru'r Risg |
|---|---|
| Mae'n bosibl na fydd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cefnogi a chymeradwyo'r cynnig | Parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Cabinet ar gynnydd y Cynnig a'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd Strategol drwy brosesau democrataidd |

Mae'r cynnig hwn yn cymryd cipolwg hirdymor ar addysg, gan ddangos y cynllunio priodol ac effeithiol ar gyfer y ddarpariaeth addysg bresennol ac yn y dyfodol yn Nhowyn a Bae Cinmel yn unol â'r Strategaeth ar gyfer Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy.

Trwy uno Ysgol Y Foryd ac Ysgol Bae Cinmel gall staff weithio gyda'i gilydd gan greu sefydlogrwydd a gweledigaeth a rennir i ddarparu amgylchedd dysgu cyson a chydlynol, a chynnig mwy o botensial ar gyfer gwella lefelau cyflawniad o fewn yr ysgol.

## 2. Manylion yr Ysgolion yr Effeithir arnynt




## 2.1 Ysgol Y Foryd

Ysgol fabanod gymunedol yw Ysgol Y Foryd, sydd wedi'i lleoli ym mhentref Bae Cinmel yn sir Conwy, sy'n gwasanaethu ardal Towyn/Bae Cinmel. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair a saith mlwydd oed. Saesneg yw prif iaith yr ysgol.

Mae'r cynllun ysgol isod yn dangos y gosodiad a'r adeiladau sydd ar gael.

**Ysgol Y Foryd - Cynllun yr Ysgol**




Mae lle i 201 o ddisgyblion rhwng pedair a saith oed yn Ysgol y Foryd. Daw'r data a ddangosir isod o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) y mae'n rhaid ei gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn.

| Niferoedd disgyblion Ysgol y Foryd am y 5 mlynedd diwethaf | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
| Cyfanswm Oedran statudol Disgyblion | 172 | 141 | 140 | 138 | 165 |

| Rhagamcanion disgyblion Ysgol y Foryd am y 5 mlynedd nesaf | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 |
| Cyfanswm Oedran statudol Disgyblion | 151 | 142 | 141 | 145 | 143 |

**Amcanestyniadau yn unig yw'r niferoedd disgyblion rhwng 2025 a 2029 a gallai'r rhain newid.**

### 2.2 Ysgol Maes Owen

Mae Ysgol Maes Owen yn ysgol gymunedol ar gyfer disgyblion rhwng saith ac un ar ddeg oed. Fe'i lleolir ar gyrion Bae Cinmel, ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Saesneg yw prif iaith yr ysgol

Mae'r cynllun ysgol isod yn dangos y gosodiad a'r adeiladau sydd ar gael.

**Ysgol Maes Owen - Cynllun Ysgol**




Mae lle yn Ysgol Maes Owen i 265 o ddisgyblion rhwng saith ac un ar ddeg oed. Daw'r data a ddangosir isod o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) y mae'n rhaid ei gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn.

| Niferoedd disgyblion Ysgol Maes Owen am y 5 mlynedd diwethaf | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
| Cyfanswm Oedran statudol Disgyblion | 233 | 247 | 252 | 248 | 208 |

| Rhagamcanion disgyblion Ysgol Maes Owen am y 5 mlynedd nesaf | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 |
| Cyfanswm Oedran statudol Disgyblion | 198 | 201 | 196 | 208 | 201 |

**Amcanestyniadau yn unig yw'r niferoedd disgyblion rhwng 2025 a 2029 a gallai'r rhain newid.**

### 2.3 Effaith ar Ddisgyblion a Staff

O ystyried na fyddai'r cynnig yn arwain at unrhyw newid i leoliad safle'r ysgol, ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion.

Y prif newidiadau posibl y bydd disgyblion yn eu gweld yw enw'r ysgol, a'r wisg, os cytunir ar y cynigion.

O ran staffio, os cyfunir y ddwy ysgol, bydd Corff Llywodraethu Dros Dro yn gweithio gyda'r Pennaeth ac mewn cysylltiad â swyddogion Adnoddau Dynol Addysg i sefydlu'r strwythur staffio ar gyfer yr ysgol newydd. Bydd y cynigion hyn yn rhoi mwy o gyfle i staff ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm cynradd cyfan a photensial ar gyfer strwythurau staffio a rheoli mwy arbenigol yn yr ysgol 3 - 11.

**Ysgol Y Foryd – Staff Presennol (CYBLD 2024)**

| Staff Addysgu Niferoedd CALI | | | Staff Cefnogi CALI | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pennaeth | Dirprwy Bennaeth | Athro Cymwys | CALU | Cymhorthydd Addysgu | Staff Cefnogi Anghenion Arbennig | Staff Gweinyddol | Rheolwr Busnes yr Ysgol neu gyfateb |
| 1.00 | 1.00 | 5.80 | 2.52 | 6.52 | 2.28 | 1.00 | 0.22 |

**Ysgol Maes Owen – Staff Presennol (CYBLD 2024)**

| Staff Addysgu Niferoedd CALI | | | Staff Cefnogi CALI | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pennaeth | Dirprwy Bennaeth | Athro Cymwys | CALU | Cymhorthydd Addysgu | Staff Cefnogi Anghenion Arbennig | Staff Gweinyddol | Rheolwr Busnes yr Ysgol neu gyfateb |
| 1.00 | 1.00 | 7.40 | 0.89 | 4.62 | 2.22 | 1.00 | 0.22 |

### 2.4 Trefniadau Derbyn

Bydd trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol gyfun newydd yn parhau i gael eu gweinyddu gan Wasanaethau Addysg Conwy.
Bydd grwpiau addysgu yn aros o fewn y terfyn statudol o 30 disgybl yn y dosbarthiadau Babanod a 30 neu lai ar gyfer disgyblion iau.

## 2.5 Dalgylch

Os bydd y cynnig i uno Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen yn mynd rhagddo, ni fydd unrhyw newidiadau i ddalgylch presennol yr ysgol. Bydd gan yr ysgol newydd yr un dalgylch ag sydd ar hyn o bryd yn cynnwys yr ysgolion babanod ac iau ar wahân.

Yn y pen draw, bydd disgyblion yn trosglwyddo i Ysgolion Uwchradd perthnasol Ysgol Emrys ap Iwan neu Ysgol Y Creuddyn.

# 3. Ansawdd a Safonau mewn Addysg

## 3.1 Cwricwlwm

Mae adroddiadau arolwg ESTYN ar gyfer y ddwy ysgol yn nodi'r ddarpariaeth gwricwlaidd fel a ganlyn:

**Ysgol Y Foryd** *"Mae'r ffordd lwyddiannus y mae'r ysgol yn defnyddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn ei chynlluniau yn gryfder arbennig ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ym mhob dosbarth ac yn eu defnyddio'n bwrpasol mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y cwricwlwm. Mae egwyddorion y cwricwlwm newydd 'Dyfodol Llwyddiannus' yn amlwg yng ngwaith yr ysgol."*

**Ysgol Maes Owen** *"Mae'r ysgol yn gweithredu cwricwlwm sy'n eang a chytbwys ac yn adlewyrchu gofynion y Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys wythnosau thema cynlluniedig a digwyddiadau dathlu sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn bwrpasol. Er enghraifft, mae athrawon yn hwyluso wythnosau llesiant a diogelwch rhyngrwyd i atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol. Maent hefyd yn cynllunio diwrnodau ymwelwyr 'Byd Gwaith' i godi dyheadau disgyblion, fel pan fydd parafeddygon yn siarad â disgyblion am eu rolau a'u profiadau. Mae athrawon yn y CAD yn cynllunio profiadau dysgu dilys effeithiol sy'n cyfateb yn dda i themâu'r ysgol. Mae'r arfer effeithiol hwn yn targedu dysgu disgyblion yn llwyddiannus."*

Byddai uno'n galluogi gwell cydweithio, gan ddarparu'r manteision posibl canlynol i safonau disgyblion, gwell darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth:

- creu ethos addysgol a rennir sy'n cefnogi plant o 3 oed hyd at 11 oed
- cael y ddwy ysgol yn cydweithio'n rhwydd i olrhain cynnydd y plant o 3 i 11 oed
- y gallu i rannu arfer gorau o ran hyrwyddo'r Gymraeg
- galluogi disgyblion a staff o'r ddwy ysgol i gael mynediad haws at arbenigeddau, adnoddau a chyfleusterau sy'n gysylltiedig â'r naill gyfnod neu'r llall
- darparu ar gyfer ystod ehangach o weithgareddau
- cael gofal bugeiliol cyson o 3 i 11 oed
- caniatáu i'r gymuned uniaethu ag un ysgol gynradd a'i chefnogi ac o bosibl darparu rôl ffocws cymunedol mwy effeithiol trwy ei llywodraethu sengl
- hyrwyddo mwy o ryngweithio gan ganiatáu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ychwanegol a allai gael eu cefnogi gan rieni, plant a staff
- llai o ddyblygu ac arbedion maint wrth reoli cyllidebau
- darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad staff a dysgu o ffyrdd newydd o wneud pethau.

### 3.2 Arolygiadau Estyn

Mae ysgolion yn cael eu harolygu fel rhan o raglen arolygu ysgolion cenedlaethol. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (ESTYN).

Mae'r dolenni i'r adroddiad llawn wedi'u cynnwys isod, ac mae argymhellion timau arolygu ESTYN ar gyfer yr ysgolion fel a ganlyn:

#### 3.2.1 Ysgol y Foryd: Ionawr 2019 - Adroddiad Arolwg Ysgol y Foryd 2019 (llyw.cymru)

**A1** Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion mwy galluog

#### 3.2.2 Ysgol Maes Owen : Mehefin 2023 - Adroddiad Arolwg Ysgol Maes Owen 2023 (llyw.cymru)

**A1** Sicrhau bod disgwyliadau athrawon o ddeilliannau disgyblion a'u hymatebion i waith disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol

**A2** Gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso a datblygu eu medrau rhifedd

**A3** Cryfhau'r ddarpariaeth i ddisgyblion siarad Cymraeg

Yn dilyn arolygiadau, mae'n ofynnol i ysgolion lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Disgwylir i'r uno arfaethedig o'r ddwy ysgol roi cyfle i wella ymhellach o dan un Corff Llywodraethu gydag un ethos a pholisïau i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

## 4. Cyllid

Y dyraniad refeniw ar gyfer Ysgol y Foryd ar gyfer 2024/25 yw **£845,473** gyda chyfran cyllideb fesul disgybl o **£4,546**.

Ar gyfer Ysgol Maes Owen y dyraniad refeniw ar gyfer 2024/25 yw **£997,780** gyda chyfran cyllideb fesul disgybl o **£4,797**.

Mae hwn yn ddyraniad cyfun o **£1,843,253**.

Y gyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl cynradd yng Nghonwy yw **£4,664**.

Un o'r sbardunau ar gyfer uno yw cyllid cyfartal i ddisgyblion a thrwy uno ysgolion babanod ac iau bydd y ffigwr cost fesul disgybl ar gyfer Ardal Towyn/Bae Cinmel yn cael ei resymoli.

Bydd Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen yn cael eu hariannu ar yr un fformiwla ag ysgolion eraill os ydynt yn cael eu huno. Fel rhan o fformiwla ariannu'r Cyngor, mae ysgolion yn cael eu hariannu ar sail nifer y disgyblion ac ar gostau eraill nad ydynt yn ymwneud ag addysgu.

Pe bai'r ysgolion yn cael eu huno i fod yn un ysgol, byddai'r fformiwla yn cyfrifo cyllideb sengl o **£1,776,448**, sy'n llai na'r gyllideb o weithredu fel dwy ysgol ar wahân.

Er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei drosglwyddo'n ddidrafferth i gynnal safonau addysgol ac osgoi straen ariannol gormodol ar yr ysgol sydd newydd uno, byddai'r ysgol newydd yn cael ei diogelu dros dro, fel y cytunwyd gan y Cabinet (Ionawr 2024).

Gan fod y cyllid ar gyfer yr ysgol newydd yn cynrychioli gostyngiad o 3% (**£57,179** ar ôl cadw costau cyflawni CLG), bydd yr amddiffyniad trosiannol dros 3 blynedd yn unol â model ariannu trosiannol cymeradwy Conwy.

| | **Blwyddyn 1 50%** | **Blwyddyn 2 25%** | **Blwyddyn 3 (0%)** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Amddiffyn** | £28,589.50 | £14,294.75 | £0 | £42,884.25 |
| **Gostyngiad Dyraniad** | £28,589.50 | £42,884.25 | £57,179 | £128,652.75 |

Byddai cyllid ychwanegol ym mlwyddyn un yn 50% o'r gwahaniaeth rhwng cyllid yr ysgol newydd a'r ddwy ysgol wreiddiol ac yn yr ail flwyddyn 25% o'r gwahaniaeth rhwng cyllid yr ysgol newydd a'r ddwy ysgol wreiddiol. Yn y blynyddoedd dilynol, ni fyddai cyllid ychwanegol a byddai'r ysgol newydd yn cael ei hariannu fel un ysgol.

## 5. Cyflwr Adeiladau'r Ysgolion

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn rhan o'i ddata Rheoli Asedau, wybodaeth yn ymwneud â chyflwr holl adeiladau ysgolion (Gwaith Oes Gyfan). Maent wedi eu sgorio gan y canlynol:

| | |
|---|---|
| A | Defnyddiol, wedi cynnal bywyd gyda chynnal a chadw arferol |
| B | Gweithredol, angen mân waith cynnal a chadw hanfodol |
| C | Gweithredol, ond angen peth gwaith cynnal a chadw critigol ac / neu hanfodol |
| D | Prin yn weithredol, angen gwaith cynnal a chadw sylweddol critigol a hanfodol, peryg o dorri i lawr; angen ailwampio dwys neu ei newid yn llwyr |

Mae sgôr y ddwy ysgol fel a ganlyn:

| Ysgol Y Foryd | Ysgol Maes Owen |
|---|---|
| B | B |

## 6. Effaith Gymunedol

**Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen**

Trwy uno, mae'r ysgolion yn parhau ar agor yn eu cymunedau.

### 6.1. Defnydd cymunedol o gyfleusterau ysgol

Nid oes unrhyw ddefnydd cymunedol o'r naill ysgol ar hyn o bryd.

### 6.2. Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol

Mae Clwb Hwyl Towyn, a leolir ar dir Ysgol y Foryd, yn darparu gofal dydd llawn o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.00am i 6.00pm.

## 7. Effaith ar Gludiant

Mae'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol presennol yn nodi y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion Ysgolion Cynradd sy'n byw dros 2 filltir o'u hysgol briodol agosaf.

Ar hyn o bryd mae naw disgybl yn derbyn Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol i naill ai Ysgol y Foryd neu Ysgol Maes Owen sy'n byw dros 2 filltir o'r ysgol, saith ohonynt i ganolfan adnoddau Ysgol Maes Owen.

Pe bai'r Cynnig i uno'r ysgolion yn cael ei gymeradwyo, ni fydd unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth cludiant presennol.

Mae rhagor o fanylion am gludiant ysgol ar gael ar dudalennau gwe Conwy - Cludiant Ysgol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**8.** Effaith ar Iaith

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell darparu dadansoddiad o'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgolion y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon.

Fel y dengys y tabl isod mae Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen yn ysgolion cyfrwng Saesneg lle caiff yr holl ddisgyblion eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg, gyda llai na 25% o'r cwricwlwm yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y ddwy ysgol ethos Saesneg yn bennaf gyda chyfarfodydd staff a llywodraethwyr a gweithgareddau anffurfiol disgyblion yn digwydd trwy gyfrwng y Saesneg.

Mae adroddiadau ESTYN ar gyfer y ddwy ysgol yn nodi sut y defnyddir y Gymraeg o fewn y cwricwlwm ac yn yr ysgol gyfan.

**Ysgol Y Foryd** – *"Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn llwyddiannus wrth sicrhau dilyniant a pharhad yn nysgu'r disgyblion. Mae staff yn creu ethos Cymreig hynod o gadarnhaol ac yn hyrwyddo'r iaith yn effeithiol. Mae hyn yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd bron pob disgybl. Trwy waith trawsgwricwlaidd, ymweliadau a chyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau, caiff disgyblion brofiadau diddorol i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru."*

**Ysgol Maes Owen** – *"Nid yw datblygiad sgiliau Cymraeg disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae rhan fwyaf y staff yn defnyddio geirfa ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn briodol yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft i roi cyfarwyddiadau i'w disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fodelu'r iaith nac yn annog disgyblion i siarad, gofyn ac ateb cwestiynau yn Gymraeg yn ddigon da."*

Ni fydd y cynnig i uno'n ffurfiol yn effeithio'n negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg, drwy gael un Corff Llywodraethu efallai y bydd cyfle i weithio tuag at wella'r modd y caiff y Gymraeg ei hybu a'i hehangu drwy'r cwricwlwm ac mewn gweithgareddau mwy anffurfiol gyda chefnogaeth barhaus gan yr Awdurdod Lleol.

| **Dadansoddiad o'r defnydd o'r Gymraeg** | **Ysgol Y Foryd** | **Ysgol Maes Owen** |
|---|---|---|
| Niferoedd Disgyblion – Llawn Amser a Rhan Amser (Ionawr 2024) | **165 (gan gynnwys 43N)** | **208** |
| Categori iaith yr ysgol | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Saesneg** |
| (CYBLD 2024) Canran y disgyblion o gartrefi lle mai'r iaith a siaredir yw:<br>*Ddim yn siarad Cymraeg Gartref*<br>*Siarad Cymraeg Gartref*<br>*Amherthnasol, methu siarad Cymraeg* | <br><br>5%<br>2%<br>93% | <br><br>10%<br>3%<br>87% |
| % y disgyblion a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg | 0% | 0% |
| Cyfrwng iaith y disgyblion ar y<br>*Maes chwarae*<br>*Clwb Brecwast*<br>*Clwb Ar Ôl Ysgol* | <br>Saesneg<br>Saesneg<br>Saesneg | <br>Saesneg<br>Saesneg<br>Saesneg |
| Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn flynyddol mewn:<br>*Cylch Meithrin / Ti a Fi*<br>*Eisteddfodau*<br>*Canghennau'r Urdd*<br>*Gweithgareddau cyfrwng Cymraeg eraill* | <br>Na<br>Na<br>Na<br>Na | <br>Na<br>Na<br>Na<br>Na |

| | | |
|---|---|---|
| Defnyddir yr ysgol gan y gymuned i ddysgu Cymraeg | Na | Na |
| Canran y staff addysgu sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg: | - | - |
| Canran y staff cefnogi sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg: | - | - |
| Canran y Llywodraethwyr sy'n gallu siarad Cymraeg: | - | - |
| Yr iaith a ddefnyddir amlaf yn ystod:<br>*Cyfarfodydd Llywodraethwyr -*<br>*Cyfarfodydd CRhA*<br>*Cyfarfodydd Staff* | Saesneg<br>Saesneg<br>Saesneg | Saesneg<br>Saesneg<br>Saesneg |
| (o bobl 3+ oed) Canran y Ward Leol sydd ar ddyddiad cyfrifiad 2011 yn: | Bae Cinmel | Bae Cinmel |
| *Siarad Cymraeg* | 11.5% | 11.5% |
| *Dim sgiliau Cymraeg* | 81.7% | 81.7% |

## 9. Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r tablau isod yn ystyried gwybodaeth bresennol yr ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd cydraddoldeb penodol y gallai fod angen eu hystyried wrth weithredu'r cynigion. Mae'r wybodaeth ar gyfer yr ysgolion yn dangos poblogaeth ysgol amrywiol ac nid oes unrhyw arwydd y byddai unrhyw ddisgyblion dan anfantais pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen; o ystyried y bydd y ddwy ysgol yn aros ar yr un safle ac ni fydd disgyblion yn cael llawer o newid yn eu trefn ddyddiol yn yr ysgol.

| **Llinyn Cydraddoldeb** | **Ysgol Y Foryd** |
|---|---|
| Hil | (CYBLD 2024) Yn Ysgol Y Foryd mae 95% o'i disgyblion sydd dros 5 oed wedi'u nodi fel 'Gwyn Prydeinig', ac roedd y 5% sy'n weddill yn 'Cymysg' 'Du' ac 'Arall'.<br><br>Mae data CYBLD 2024 yn dweud wrthym fod 48.1% o ddisgyblion yn 'Brydeinig', 41.3% yn 'Gymraeg', a 9.1% yn 'Saesneg'.<br><br>Mae gwybodaeth mewn perthynas â hil yn cael ei hystyried yn 'ddata sensitif' ac o'r herwydd, mae'r wybodaeth ar gyfer disgyblion dan 5 oed yn cael ei chadw'n ôl. |
| Anabledd | (CYBLD 2024) Ar hyn o bryd mae tua 10% o ddisgyblion Ysgol y Foryd yn derbyn peth cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. |
| Rhywedd | (CYBLD 2024) O'r disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol llawn amser yn Ysgol Y Foryd mae 53% yn fechgyn a 47% yn ferched. |
| Oedran | Mae Ysgol y Foryd yn ysgol fabanod sy'n darparu addysg amser llawn i ddisgyblion 4-7 oed a meithrin rhan amser i ddisgyblion 3-4 oed.<br>Nid yw gwybodaeth sy'n cael ei dosbarthu fel 'sensitif' e.e. ethnigrwydd, cenedligrwydd, yn cael ei adrodd ar gyfer plant dan 5 oed, yn unol ag argymhellion Cenedlaethol. |
| Crefydd a Chred | Nid yw Ysgol Y Foryd yn ysgol enwadol gysylltiedig. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Amherthnasol |
| Y Gymraeg | Gweler 'Dadansoddiad Iaith' ar gyfer Ysgol Y Foryd (Adran 8) |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda): | (CYBLD 2024) Mae 35.8% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Y Foryd ar hyn o bryd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. |

| **Llinyn Cydraddoldeb** | **Ysgol Maes Owen** |
|---|---|
| Hil | (CYBLD 2024) Yn Ysgol Maes Owen mae 93% o'i disgyblion wedi'u nodi fel 'Gwyn Prydeinig', ac roedd y 7% sy'n weddill yn 'Cymysg' 'Du' ac 'Arall'.<br>Mae data CYBLD 2024 yn dweud wrthym fod 63.0% o ddisgyblion yn 'Brydeinig', 23.6% yn 'Gymraeg', 10.6% yn 'Saesneg', 1.9% 'Arall' ac 1.05% yn 'Wyddelig'. |
| Anabledd | (CYBLD 2024) Ar hyn o bryd mae tua 19% o ddisgyblion Ysgol Maes Owen yn derbyn peth cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. |
| Rhywedd | (CYBLD 2024) O'r disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Maes Owen mae 50% yn fechgyn a 50% yn ferched. |
| Oedran | Mae Ysgol Maes Owen yn ysgol iau sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion 7 i 11 oed. |
| Crefydd a Chred | Nid yw Ysgol Maes Owen yn ysgol enwadol gysylltiedig. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Amherthnasol |
| Y Gymraeg | Gweler 'Dadansoddiad Iaith' ar gyfer Ysgol Maes Owen (Adran 8) |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda): | (CYBLD 2024) Mae tua 33.2% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Maes Owen ar hyn o bryd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. |

## 10. Ymgynghoriad

Mae'r ddogfen hon yn nodi dechrau'r broses ymgynghori. Mae hyn yn galluogi pawb sydd â diddordeb i roi eu barn ar y cynnig cyn cyhoeddi unrhyw hysbysiadau statudol. Bydd y cyfnod ymgynghori'n para tan **2 Rhagfyr 2024**. O ganlyniad i'r ymgynghoriad mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn penderfynu peidio bwrw ymlaen ymhellach â'r cynnig neu i fwrw ymlaen â'r cynnig neu fersiwn a addaswyd ohono.

Byddai unrhyw gynnig ffurfiol yn cael ei nodi a'i gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol cyhoeddus a fyddai'n cael ei weithredu yn unol â'r dyddiad a roddwyd yn yr hysbysiad statudol neu unrhyw ddyddiad a addaswyd wedyn.

Mae gan y Cyngor bwerau i gynnig ehangu neu gau ysgolion. Pe bai'r cynigion yn cael eu cyhoeddi ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, yna byddai cyfnod statudol o 28 diwrnod lle y gellir cyflwyno sylwadau pellach a gwrthwynebiadau ffurfiol.

Ni fydd unrhyw ymatebion yn ystod yr Ymgynghoriad yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau ffurfiol. Er mwyn i ymatebion gael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol mae'n rhaid eu cyflwyno yn ysgrifenedig neu drwy e-bost o fewn y cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.

Pa un a yw gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn o fewn y cyfnod statudol ai peidio, bydd y cynnig yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. Disgwylir i Gabinet Conwy wneud penderfyniad yn ystod haf 2025.

Sut i gyflwyno sylwadau neu ofyn cwestiynau am y cynnig neu awgrymu dewisiadau eraill?

- Gallwch lenwi'r holiadur sydd ynghlwm a'i anfon at Dr Lowri Brown, Pennaeth Addysg, Gwasanaethau Addysg, Coed Pella, Bae Colwyn, LL29 7AZ.

- Gallwch ysgrifennu at Dr Lowri Brown, Pennaeth Gwasanaethau Addysg, Coed Pella, Bae Colwyn, LL29 7AZ.

- Gallwch e-bostio eich sylwadau at: moderneiddio.ysgolion@conwy.gov.uk

**Cynnig ar gyfer Uno**
**Ysgol Y Foryd**
**ac**
**Ysgol Maes Owen**

**DYCHWELER ERBYN 2 RHAGFYR 2024 FAN BELLAF OS GWELWCH YN DDA**

I: Dr Lowri Brown, Pennaeth Gwasanaethau Addysg, Coed Pella, Bae Colwyn, LL29 7AZ.

Ar-lein: www.conwy.gov.uk/YmgynghoriadYsgolionBaeCinmel

Gallwch hefyd anfon eich barn dros e-bost at: moderneiddio.ysgolion@conwy.gov.uk

A ydych yn cytuno â'r cynnig i uno Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Rwy'n:-

Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion uchod ar hyn o bryd ☐

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant plentyn a oedd yn yr ysgol o'r blaen | ☐ | Rhiant plentyn mewn ysgol arall | ☐ |
| Aelod o staff yn yr ysgol | ☐ | Aelod o staff mewn ysgol arall | ☐ |
| Llywodraethwr yr ysgol | ☐ | Llywodraethwr ysgol arall | ☐ |
| Rhywun arall â diddordeb | ☐ | Enw'r ysgol arall neu barti â diddordeb ____________________ | |

Mae fy sylwadau fel a ganlyn:

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

A hoffech chi dderbyn dolen gyswllt drwy e-bost pan gyhoeddir Adroddiad yr Ymgynghoriad ar wefan Gwasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy?

Hoffwn ☐ ☐

Os 'Hoffwn' nodwch eich cyfeiriad e-bost:______________________________

**Diogelu Data:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r Rheolydd Data at ddibenion Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016/Deddf Diogelu Data 2018. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rheoli'r wybodaeth a ddarperir gennych mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Data Cyffredinol 2016 / Deddf Diogelu Data 2018. Ni ddefnyddir y wybodaeth rydych chi'n ei darparu ond i rannu gwybodaeth â chi am yr uchod. I weld yr hysbysiad preifatrwydd llawn a mwy, ewch i https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Access-to-Information/Privacy-Notices/How-Conwy-County-Borough-Council-uses-your-Information.aspx